## Cymeradwywyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Hyfforddiant Pasbort Codi a Chario (Pobl) Cymru Gyfan

### Hyfforddiant Pasbort Codi a Chario (Pobl) 2 ddiwrnod – 8 lle ar bob cwrs

**Ffi: £80 y person**

**Nodau ac amcanion y Cynllun Pasbort:**

- I hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant y rheiny sy'n darparu neu'n derbyn gofal codi a chario (pobl) trwy ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- I sicrhau cysondeb o ran safonau codi a chario (pobl) o fewn sefydliadau sy'n cymryd rhan.
- Darparu safon i'w ddefnyddio wrth gomisiynu gwasanaethau dan gontract gan ddarparwyr hyfforddiant gofal.
- Datblygu mecanwaith lle gellir trosglwyddo sgiliau rhwng sefydliadau sy'n cymryd rhan.

**Modiwlau a gwmpesir:**

- Modiwl A – Theori
- Modiwl B – Codi a Chario Llwyth Offer a Chymhwyso Ergonomeg Ymarferol
- Modiwl C – Eistedd, Sefyll a Cherdded
- Modiwl D – Symudedd Gwely
- Modiwl E – Codi a Chario (Pobl) o'r Llawr ac Mewn Argyfwng ***(os oes angen)***
- Modiwl F – Defnydd o hoist

**Bydd cwblhau'r uchod gyda Chyngor Sir Ceredigion yn rhoi'r hawl i chi dderbyn cymorth dilynol sef :**

- Mynediad i hyfforddwyr cymwys a phrofiadol sy'n gallu cynnig cyngor ar achosion codi a chario (pobl) cymhleth
- Gweithdai CPD chwarterol am ddim - bydd gwahanol bynciau trin â llaw yn cael eu trafod ym mhob gweithdy (Cysylltwch â manualhandling@ceredigion.gov.uk am ragor o wybodaeth ynghylch cyngor a gweithdai).

### Hyfforddiant Gloywi Codi a Chario (Pobl) 1 diwrnod – 8 lle ar bob cwrs

**Ffi: £40 y person**

Ar gyfer gweithwyr sydd wedi mynychu'r cynllun pasbort 2 ddiwrnod codi a chrio (pobl) a ddarparwyd gan Gyngor Sir Ceredigiono fewn y 2 flynedd ddiwethaf. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd ymarferol o offer, technegau diogel a'r gallu i ddangos cymhwysedd.

Modiwlau a gwmpesir:

- Trosolwg o Fodiwl A - Theori
- Modiwl C - Eistedd, Sefyll, Cerdded, Trosglwyddo
- Modiwl D - Symudedd Gwely
- Modiwl E - Codi a Chario (Pobl) o'r Llawr ac Mewn  Argyfwng ***(os oes angen)***
- Modiwl F - Defnydd o hoist

**Pwysig:** Rhaid cwblhau'r hyfforddiant pasbort codi a chario (pobl) 2 ddiwrnod cyn mynychu hyfforddiant gloywi codi a chario (pobl)

## **Hyfforddiant Undydd " Rhyddhau Amser i Ofalu " -** 8 lle ar bob cwrs

**Ffî: £40 y person**

A yw un gofalwr wedi cael ei ddyrannu i'r defnyddiwr gwasanaeth, nid dau? Os felly, gadewch i Gyngor Sir Ceredigion ddangos i chi sut y gallwch ddefnyddio technegau ac offer arbenigol i gadw'r defnyddiwr gwasanaeth a chi'ch hun yn ddiogel.

Mae ein cwrs yn cwmpasu:

- Egluro'r rhesymeg y tu ôl i 'rhyddhau amser i ofalu'.
- Trosglwyddiadau, technegau ac offer mwy diogel.
- Cefnogi gofal yn y gwely wrth ddefnyddio cynfasau arbenigol a systemau rheoli gwelyau

**Pwysig:** Rhaid cwblhau'r hyfforddiant pasbort codi a chario (pobl) 2 ddiwrnod cyn mynychu hyfforddiant Rhyddhau Amser i Ofalu.

## **Hyfforddiant Asesiadau Risg Trin â Llaw '(Yr Hanfodion)'**– 8 lle bob cwrs

**Ffi: £40 y person**

Oes gennych chi weithwyr sy'n gyfrifol gynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch a monitro prosesau codi a chario (pobl) yn ddiogel yn eich timau? Os felly, gallwn gyflwyno cwrs sydd wedi'i anelu'n benodol at ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar fynychwyr i:

- Cynnal gwiriadau cymhwysedd ar sail gweithgaredd ar eich staff
- Cynnal gwiriadau offer gweledol
- Cynnal ac adolygu asesiadau risg addas a digonol ar gyfer trin â llaw.

**Pwysig:** Rhaid cwblhau'r hyfforddiant pasbort codi a chario (pobl) 2 ddiwrnod cyn mynychu hyfforddiant Asesiadau Risg Trin â Llaw '(Yr Hanfodion)'.

**At bwy mae'r cyrsiau hyn wedi'u hanelu ato?**

- Gofalwyr newydd neu brofiadol
- Cwmnïau gofal yn y cartref allanol
- Cartrefi preswyl
- Gofalwyr Taliadau Uniongyrchol/Cynorthwywyr Personol
- Gofalwyr anffurfiol/aelodau o'r teulu
- Darparwyr sydd yn mynd i gael arolygiadau AGC

**Bydd yr holl gyrsiau:**

- Yn ein hystafell hyfforddi arbenigol yn Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
- Yn ddwyieithog ac yn cynnwys hyfforddiant ar yr holl offer codi a chario (pobl) a ragnodir gan Wasanaethau Therapi Ceredigion
- Yn unol â Chynllun Pasbort Codi a Chario Cymru Gyfan, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru

## **Hyfforddiant Codi a Chario Pethau Difywyd –** 12 lle ar bob cwrs

**Ffi: £25 y person am sesiwn 3 awr**

**Nodau ac amcanion y Cynllun Pasbort:**

- Hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles y rhai sy'n cyflawni tasgau codi a chario difywyd.
- Sicrhau cysondeb mewn safonau codi a chario o fewn sefydliadau sy'n cymryd rhan.
- Darparu safon sylfaenol o godi a chario diogel yn unol â deddfwriaeth gyfredol ac arfer gorau
- Datblygu mecanwaith lle gellir trosglwyddo sgiliau rhwng sefydliadau.

**Modiwlau a gwmpesir:**

Modiwl A - Theori

- Deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch
- Achosion ac effeithiau anhwylderau cyhyrysgerbydol (MSD)
- Atal a rheoli Anhwylderau Cyhyrysgerbydol (MSD)
- Ergonomeg ac asesu risg (gan gynnwys asesiad risg deinamig) i leihau'r risg o anaf i chi'ch hun neu i eraill
- Egwyddorion trin mwy diogel
- Trin tîm

Modiwl B – Trin Llwyth difywyd a Chymhwyso Ergonomeg yn Ymarferol

- Egwyddorion trin llwythi'n fwy diogel gan gynnwys gwirio pwysau'r llwyth cyn ei drin
- Deall asesiadau risg ffurfiol a deinamig
- Disgrifio sut y gellir cymhwyso egwyddorion trin mwy diogel wrth symud llwythi mawr neu lletchwith
- Ystyriaethau ar gyfer storio llwythi'n ddiogel, gan gynnwys ar lefelau isel ac uwchlaw uchder ysgwydd.
- Amlinellu bwysigrwydd ystum da a dangoswch y technegau canlynol yn ddiogel:
    - Gwthio a thynnu
    - Codi a gostwng llwyth o/i'r llawr neu lefel isel
    - Codi a lleoli llwyth o/i uwch lefel yr ysgwydd
    - Cefnogi a chario llwyth
    - Osgo cywir tra'n eistedd
    - Arddangos gwiriadau diogelwch sylfaenol ar offer fel y bo'n briodol
    - Trin tîm

Bydd cwblhau'r uchod gyda Chyngor Sir Ceredigion yn rhoi'r hawl i chi gael mynediad at hyfforddwyr cymwys a phrofiadol a all gynnig cyngor ar achosion cymhleth ac asesu risg.

**<u>At bwy mae'r cwrs hyn wedi'u hanelu ato?</u>**

- Staff newydd neu brofiadol
- Gweithwyr swyddfa, staff arlwyo, staff domestig a gofalwyr ac ati.
- Staff sy'n codi, datgymalu a chludo offer gwaith.
- Staff y mae'n ofynnol iddynt gynnal asesiadau risg trin llwythi difywyd

**<u>Gall y cwrs fod:</u>**

- yn ddwyieithog
- wedi'i addasu i weddu i natur eich gweithle, gan gynnwys defnyddio eich offer gwaith wrth arddangos ac ymgymryd ag elfennau ymarferol y cwrs
- yn ein hystafell hyfforddi arbenigol yn Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
- wedi'i cyflwyno ar eich safle gyda chost ychwanegol o **45c y filltir** gyda lleiafswm o 8 o fynychwyr (Cysylltwch â dysgu@ceredigion.gov.uk am bris cyn archebu)

**I archebu lle ar unrhyw un o'r cyrsiau uchod, e-bostiwch: dysgu@ceredigion.gov.uk**